OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2572 (Cy.283)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*9 Hydref 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Hydref 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 61, 66 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru) 2012, deuant i rym ar 1 Tachwedd 2012 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006

2. Yn Atodlen 2 (darparu gwasanaethau: unedau o weithgaredd deintyddol ac unedau o weithgaredd orthodontig) i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**2**), ym mharagraff 2 (unedau o weithgaredd deintyddol), yn Nhabl B (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir o dan y contract mewn cysylltiad â chyrsiau o driniaeth sy'n esempt rhag ffi)—

(a) yn y golofn gyntaf (math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi), hepgorer "Issue of a prescription"; a

(b) yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir), hepgorer "0.75".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2006/490 (Cy.59) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/456 (Cy.47).